Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Medi 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** C15167

**Trafod y ddogfen cyn ei chyhoeddi**

Mae'r ddogfen hon a’r hawlfraint ynddi yn eiddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac erys felly. Mae’n cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru o dan bwerau statudol i gyflawni swyddogaethau statudol yn unig ac fe’i paratowyd fel sail i ddogfen swyddogol y gellir ei chyflwyno neu ei chyhoeddi maes o law. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth y gallai ei datgelu heb awdurdod fod yn drosedd o dan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Oni chaniateir yn benodol o dan y gyfraith, ni ellir atgynhyrchu'r ddogfen nac unrhyw ran o'i chynnwys, na'i storio mewn system adalw na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, na'i datgelu i unrhyw un ac eithrio'r sawl a'i derbyniodd yn wreiddiol heb ganiatâd ysgrifenedig Swyddfa Archwilio Cymru ymlaen llaw. Mae'n rhaid ei diogelu bob amser i'w hatal rhag cael ei chyhoeddi neu i atal defnydd amhriodol arall o'i chynnwys. Gallai ei defnyddio neu'i datgelu heb awdurdod arwain at achos cyfreithiol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Statws yr adroddiad

Lluniwyd y ddogfen hon gan PricewaterhouseCoopers LLP (‘PwC’) ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

Roedd tîm PwC a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Lynn Pamment, Arweinydd Ymgysylltu, Martin George, Rheolwr Ymgysylltu a Richard Lanagan, Arweinydd Tîm.

# Cynnwys

Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Statws yr archwiliad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 5 |
| Materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad | 5 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 | 13 |
| Annibyniaeth a gwrthrychedd | 13 |
| Atodiadau | |
| Llythyr Sylwadau Drafft | 15 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Sir Ynys Môn | 18 |
| Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu atynt | 20 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 | 23 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

**1.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**2.** Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.

**3.** Y lefel feintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn yw £2.2m. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.

**4.** Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.

**5.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2014-15, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

## Statws yr archwiliad

**6.** Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ar 18 Mehefin 2015, 12 diwrnod gwaith cyn y terfyn amser statudol, sef 30 Mehefin 2015, ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio fwy neu lai. Ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn, roedd angen cwblhau'r canlynol:

- Adolygiad o'r ddogfennaeth ategol mewn perthynas â nifer fach o drafodion;
- Adolygiad o'r cyfrifon terfynol a'r datgeliadau;
- Camau terfynol y gwaith ar y datganiad llif arian parod a'r dadansoddiad segmentaidd
- Gweithdrefnau cwblhau mewn perthynas â'n gwaith archwilio, gan gynnwys adolygiad o ddigwyddiadau ôl-fantolen a llofnodi'r llythyr sylwadau.
- Gwaith ar ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar hynt y materion hyn ar 23 Medi 2015.

**7.** Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Swyddog a.151 dros dro a Dirprwy Swyddog a.151.

# Adroddiad archwilio arfaethedig

**8.** Yn amodol ar gwblhau'r gwaith sy'n weddill yn foddhaol, bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

**9.** Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

# Materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad

**10.** Mae Safonau Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i ni eich hysbysu am faterion perthnasol sy'n ymwneud ag archwilio'r Datganiad Cyfrifon i'ch galluogi i gymryd camau priodol.

## Camddatganiadau nas cywirwyd

**11.** Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, nad ydynt wedi cael eu cywiro.

## Camddatganiadau a gywirwyd

**12.** Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3.

## Risgiau Sylweddol ac Uwch

**13.** Yn ein Strategaeth Archwilio Ariannol, gwnaethom nodi gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol ac uwch a nodwyd yn ystod y broses o gynllunio'r archwiliad. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â'r risgiau hynny. Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Strategaeth Archwilio Ariannol, ac eithrio'r ffaith ein bod wedi ychwanegu risg uwch mewn perthynas â'r gwaith cyfrifyddu ar gyfer yr ymarfer Gwerthuso Swyddi sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd (gweler yr adran risgiau uwch isod).

*Risgiau Sylweddol*

| Risgiau sy'n gysylltiedig â'r Archwiliad | Canlyniad yr archwiliad |
|---|---|
| **Risg o dwyll o ran refeniw a chydnabod gwariant**<br>Mae risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw ac, fel y cyfryw, fe'i hystyrir yn risg sylweddol (ISA 240.26-27). Rydym hefyd yn ehangu'r risg hon i gynnwys cydnabod gwariant, gan fod risg y gallai'r Cyngor fabwysiadu polisïau cyfrifyddu neu drin trafodion | Rydym wedi deall ac wedi gwerthuso'r rheolaethau sydd ar waith i liniaru'r risgiau hyn ac wedi gwneud y canlynol:<br>• profi gwaith cysoni allweddol;<br>• profi sampl o refeniw a gwariant nad yw'n gysylltiedig â'r gyflogres er mwyn sicrhau ei fod wedi'i gynnwys yn briodol yn y cyfrifon; |

| | |
|---|---|
| incwm a gwariant mewn ffordd sy'n arwain at gamddatganiad perthnasol yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.<br><br>Rydym wedi nodi dwy risg yn benodol yn y maes hwn. Mae a wnelo'r risg gyntaf ag arian grant refeniw anghylchol, am ei bod yn bosibl na chaiff refeniw ei gydnabod yn unol â thelerau ac amodau ei broses ariannu pan fwriedir i'r grantiau hyn gael eu defnyddio ar gyfer rhaglenni penodol neu at ddibenion untro.<br><br>Mae a wnelo'r ail â gwariant sy'n ymwneud â chostau nad ydynt yn gostau cyflogres a all gael eu cydnabod yn anghyflawn, yn anghywir neu yn y cyfnod cyfrifyddu anghywir. | • profi bod trafodion a ddigwyddodd tua diwedd y flwyddyn wedi'u dosbarthu'n briodol yn y flwyddyn ariannol yr oeddent yn berthnasol iddi.<br><br>Gwnaethom hefyd ystyried y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd gan y Cyngor a chynhaliwyd profion sylweddol gennym ar drafodion incwm a gwariant.<br><br>Nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau o ganlyniad i'n profion hyd yma. |
| **Rheolwyr yn Anwybyddu Rheolaethau**<br><br>Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Gwnaethom ddeall a gwerthuso prosesau a gweithdrefnau rheoli mewnol a gwnaethom wneud y canlynol:<br><br>• profi priodolrwydd sampl o gofnodion yn y dyddlyfr (wedi'u dewis yn seiliedig ar risg) ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu prosesu'n briodol a'u bod yn ymwneud â thrafodion busnes gwirioneddol. Gwnaethom ddefnyddio Technegau Archwilio Cyfrifiadurol (CAAT) i nodi a chymryd sampl o ddyddlyfrau yr ystyriwyd eu bod yn cynnig lefel uwch o ran risg, er mwyn eu profi.<br><br>• ystyried amcangyfrifon rheoli sylweddol, megis darpariaethau a phrisiadau er mwyn nodi unrhyw dystiolaeth o ragfarn ymhlith rheolwyr.<br><br>• cynllunio a chyflawni gweithdrefnau er mwyn cadarnhau ein dealltwriaeth o'r rhesymeg busnes dros drafodion sylweddol.<br><br>• cynllunio ein gweithdrefnau archwilio er mwyn cynnwys elfen anrhagweladwy sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Gwnaethom gynnal profion er mwyn cadarnhau p'un a oedd gwariant a gynhwyswyd o fewn y Cyfrif Refeniw Tai wedi'i ddosbarthu'n briodol. Gwnaethom hefyd ystyried y gweithdrefnau caffael a ddilynwyd gyda sampl o gyflenwyr y mae'r cyngor wedi gwneud taliadau sylweddol iddynt yn ystod y flwyddyn.<br><br>Nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau o ganlyniad i'n profion hyd yma. |
| **Trefniadau Cymhleth gyda Chyflenwyr**<br><br>Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) ddatganiad i'r wasg parthed trefniadau cymhleth gyda chyflenwyr, sy'n | Cawsom ar ddeall gan y rheolwyr bod trefniadau ar waith er mwyn iddynt fodloni eu hunain y caiff trefniadau cymhleth gyda chyflenwyr eu nodi, eu rheoli a'u hadlewyrchu'n briodol yn y cofnodion cyfrifyddu a'r datganiadau ariannol. |

| | |
|---|---|
| cynyddu'r ffocws ar adolygu trefniadau o'r fath a chyfrifyddu ar eu cyfer.<br>Mae risg sylweddol na chyfrifyddir ar gyfer trafodion o'r fath yn briodol neu na chânt eu datgelu'n briodol. | Ar gyfer sampl o gontractau, gwnaethom adolygu'r contract er mwyn deall telerau allweddol y trefniant a gwnaethom ystyried y goblygiadau masnachol a'r goblygiadau o ran cyfrifyddu.<br>Gwnaethom adolygu sampl o gytundebau ac asesu'r gwaith cyfrifyddu ar gyfer y trafodion cysylltiedig.<br>Nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau o ganlyniad i'n profion hyd yma. |

*Risgiau Uwch*

| Risgiau sy'n gysylltiedig â'r Archwiliad | Canlyniad yr archwiliad |
|---|---|
| **Rhwymedigaeth pensiwn**<br>Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor rwymedigaeth net berthnasol o ran ei rwymedigaethau pensiwn ar y fantolen.<br>Nodwyd gwallau yn nata'r cyfrifiad a oedd yn sail i'r ffigur ar gyfer y rhwymedigaeth pensiwn net yng nghyfrifon y Cyngor yn 2012-13 a 2013-14 o ganlyniad i fethiant y Cyngor i ddarparu digon o wybodaeth, yn amserol, am symudiadau cyflogeion a newidiadau mewn rolau i gynllun pensiwn Cyngor Gwynedd. | Gwnaethom asesu dull gweithredu'r Cyngor o ran asesu ei rwymedigaeth pensiwn net ar 31 Mawrth 2015.<br>Gwnaethom gynnal profion ar gywirdeb a chyflawnder data sylfaenol am gyflogeion a ddarparwyd i'r actiwari at ddiben cyfrifo rhwymedigaeth actiwaraidd y cynllun ar 31 Mawrth 2015.<br>Gweler yr adran isod ar amcangyfrifon cyfrifyddu am ragor o wybodaeth. |
| **Prisio eiddo, offer a chyfarpar**<br>Mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau y caiff yr eiddo, offer a chyfarpar a ddelir ganddo ar y Fantolen eu prisio'n ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw'r swm cario yn sylweddol wahanol i werth teg yr asedau hyn ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Nodwyd yn flaenorol addasiadau archwilio ynghylch asedau na chawsant eu prisio'n ffurfiol yn ystod y flwyddyn nad ydynt wedi'u haddasu ar sail perthnasedd. Mae risg y gallai unrhyw addasiadau o'r fath a gynigir yn y dyfodol fod yn berthnasol. | Gwnaethom ystyried dull y Cyngor o asesu a chyfiawnhau'r prisiad o'i eiddo, offer a chyfarpar ar 31 Mawrth 2015 gan asesu p'un a oedd yn ddigonol ac yn briodol.<br>Gwnaethom ofyn i'n harbenigwyr prisio mewnol ystyried y fethodoleg prisio a ddefnyddiwyd, yn ogystal â chadernid tybiaethau ac amcangyfrifon allweddol gan reolwyr.<br>O ganlyniad i'n gwaith, gwnaed rhai diwygiadau i'r datganiadau ariannol (gweler isod ac Atodiad 3). |
| **Gwerthuso Swyddi**<br>Mae'r Cyngor wrthi'n cynnal adolygiad o gyflogau a graddau fel rhan o'i ymarfer Gwerthuso Swyddi.<br>Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn wedi'i neilltuo ar gyfer cost amcangyfrifedig yr ymarfer Gwerthuso Swyddi.<br>Yn seiliedig ar y graddau y gallai rhwymedigaeth godi i ôl-ddyddio unrhyw wahaniaethau mewn cyflog a thalu iawndal i staff, mae'n bosibl y bydd angen i'r Cyngor wneud darpariaeth bellach ar gyfer hyn. | Gwnaethom asesu cynnydd y Cyngor wrth gynnal yr adolygiad o gyflogau a graddau a pha un a oedd angen rhwymedigaeth o ganlyniad i hyn.<br>Mae ein gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn ac rydym wedi cynnig newid i'r datganiadau ariannol i gydnabod y costau sy'n gysylltiedig ag ôl-ddyddio cyflogau unigolion fel darpariaeth, yn hytrach na'u cynnwys o fewn y gronfa wrth gefn wedi'i neilltuo (gweler isod). |

## Amcangyfrifon sylweddol

**14.** Yn ystod ein harchwiliad, ymgymerwyd â gweithdrefnau penodol mewn perthynas â meysydd sy'n destun risg o ran amcangyfrif.

### Y fethodoleg a'r rhagdybiaethau ar gyfer prisio asedau sefydlog

**15.** Ailbrisiodd y Cyngor gyfran o'i bortffolio asedau sefydlog fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2015 yn unol â'i bolisi cyfrifyddu i ailbrisio asedau bob pum mlynedd. Yn ogystal â hyn, fel rhan o ymarfer 2014-15, ailbrisiwyd yr holl asedau a ddelir gan y Cyngor gyda gwerth o dros £500k, gan gynnwys Anheddau'r Cyngor, hefyd yn ystod y flwyddyn. Canolbwyntiodd ein harchwiliad ar gadernid y cyfrifiadau a wnaed gan brisiwr mewnol cymwysedig y Cyngor a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad.

**16.** Gwnaethom ddewis sampl o'r asedau a ailbrisiwyd er mwyn gwerthuso'r fethodoleg a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd gan y prisiwr. Gwnaethom nodi nifer fach o achosion lle y prisiwyd yr asedau yn seiliedig ar arwynebedd llawr anghywir, a oedd yn fater a nodwyd yn ystod archwiliadau blynyddoedd blaenorol ac yr ydym wedi cynnig addasiad ar ei gyfer (gweler Atodiad 3). Caiff priodolrwydd a chywirdeb y prisiad eu tanseilio pan na fydd cynlluniau llawr yr ased yn cyd-fynd â'r arwynebedd a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r prisiad. Gwnaethom hefyd nodi nifer fach o asedau dros £500k a hepgorwyd o'r ymarfer prisio gan y prisiwr a rhai ailbrisiadau a gyflawnwyd gan y prisiwr nas cynhwyswyd yn y cofnodion cyfrifyddu. Diwygiwyd y rhain yn y Datganiad Cyfrifon.

**17.** **Eiddo Buddsoddi** - Gwnaethom nodi gwall pellach lle cafodd yr unedau a adeiladwyd gan y Cyngor ym Mhen-yr-orsedd, Llangefni, eu cyfrif ddwywaith yn y cofnodion cyfrifyddu. Yn y Datganiad Cyfrifon drafft, cafodd cost yr unedau ei chynnwys o fewn Asedau sydd Wrthi'n Cael eu Hadeiladu o fewn PPE a hefyd wrth brisio eiddo buddsoddi, gan eu bod yn cael eu rhentu allan i fusnesau lleol. Rydym wedi cynnig addasiad yn Atodiad 3 er mwyn trosglwyddo costau'r unedau o Asedau sydd Wrthi'n Cael eu Hadeiladu i eiddo buddsoddi ac er mwyn nodi cost yr unedau gorffenedig yn ôl eu gwerth teg.

**18.** **Asedau a Ddelir i'w Gwerthu** - Delir asedau y bwriedir eu gwerthu yn y cyfrifon fel asedau cyfredol o fewn Asedau a Ddelir i'w Gwerthu. Dylid ailbrisio asedau adeg eu trosglwyddo i Asedau a Ddelir i'w Gwerthu i'r gwerth isaf o ystyried eu gwerth cario a'u gwerth teg llai costau gwerthu. Gwnaethom brofi sampl o asedau yn y categori hwn a nodwyd dau ased lle roedd gwerthoedd cario'r asedau yn uwch na'r gwerth teg llai costau gwerthu ond lle na wnaed unrhyw addasiad er mwyn ailbrisio'r asedau. Gwnaethom hefyd nodi un ased (tir ar safle Ysgol y Graig gynt) y dylid ei drosglwyddo i Asedau a Ddelir i'w Gwerthu ar 31/3/15. Disgrifir yr addasiadau ar gyfer y gwallau hyn yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

**19.** **Anheddau'r Cyngor** - Mae'r Cyngor yn defnyddio dull Beacon o brisio ei stoc tai cyngor, sy'n cynnwys dewis sawl eiddo sy'n nodweddiadol o wahanol gategorïau neu haenau o dai cymdeithasol, eu prisio, ac yna gymhwyso'r gwerth hwn at bob haen yn ei thro.

**20.** Er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng tai preifat a thai cymdeithasol (fel anheddau cyngor) lle mae gan denantiaid lawer mwy o hawliau, mae dull Beacon yn defnyddio ffactor addasu er mwyn lleihau'r gwerth yn briodol.

**21.** Ar adeg y prisiad ffurfiol diwethaf (2010-11), nid oedd data ar gael ar y ffactorau addasu ar gyfer Cymru, felly dewisodd y Cyngor ranbarth cymharol (Swydd Efrog a Humberside) a chymhwysodd y ffactor addasu hwn, sef 31%.

**22.** Nododd papur ymchwil, a gyhoeddwyd gan DVS (arbenigwyr prisio yn y sector cyhoeddus) ym mis Ebrill 2011, wybodaeth ddangosol am ffactorau addasu ar gyfer rhanbarthau Cymru, a'r ffactor a roddwyd ar gyfer Gogledd a Gogledd-ddwyrain Cymru oedd 39%. Fodd bynnag, nid yw'r papur hwn wedi'i gynnwys eto o fewn unrhyw ganllawiau ffurfiol ac felly cymhwyswyd yr un ffactor addasu, sef 31%, eleni.

**23.** Byddai newid o 1% yn y ffactor addasu a gymhwyswyd yn cael effaith berthnasol ar werth anheddau cyngor. Felly ystyriodd y Cyngor yn ofalus pa ffactor addasu y dylid ei gymhwyso, gan ddod i'r casgliad na fu'r papur ymchwil yn destun ymgynghori a dilysu digonol i allu dibynnu arno fel sail ar gyfer gwneud newid mor sylweddol yn ei ddatganiad o gyfrifon. Felly, mae wedi cadw'r ffactor addasu presennol, sef 31%, ond gan dynnu sylw darllenwyr at y papur ymchwil yn ei ddatganiad cyfrifon gan nodi y gallai arwain at newid sylweddol yng ngwerth anheddau'r cyngor yn y dyfodol o tua £3.5m fesul 1% o wahaniaeth. Rydym o'r farn bod hyn yn rhesymol.

**24.** Gwnaethom adolygu cyfrifiadau manwl y broses o brisio Anheddau'r Cyngor ac asesu rhesymoldeb y gwerthoedd nodweddiadol a fabwysiadwyd gan y prisiwr. Gwnaethom nodi nifer fach o wallau cyfrifo yn y daenlen a nodwyd anghywirdeb yng nghyfanswm nifer yr eiddo o fewn y cyfrifiad. Gwnaed addasiad o £284k i'r Datganiad Cyfrifon o ganlyniad, fel y nodir yn Atodiad 3.

**25.** **Cyfrifyddu Ysgolion** - mae pedair ysgol ffydd yn y Sir, y mae un ohonynt yn eiddo i gorff crefyddol ac, fel y cyfryw, wedi'i heithrio o fantolen yr Awdurdod. Mae un ysgol yn eiddo i'r Awdurdod ac felly caiff ei chynnwys yng nghyfrifon y Cyngor. Mae'r fframwaith cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sy'n eiddo i gyrff crefyddol gael eu heithrio o fantolen yr Awdurdod. Fodd bynnag, nodwyd ar gyfer y ddwy ysgol sy'n weddill, bod rhywfaint o ansicrwydd o ran p'un a yw'r ysgolion yn eiddo i'r Eglwys neu'r Cyngor. Gan nad yw gwerth y ddwy ysgol hyn yn berthnasol (y gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015 yw £1.4m) ac am fod yr Awdurdod yn gyfrifol am gostau parhaus mewn perthynas â'r ysgolion, rydym o'r farn bod hyn yn rhesymol ond argymhellwn y dylid cynnal ymarfer yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16 i bennu perchenogaeth ac, os bydd angen, y dylid diwygio'r ffordd yr ymdrinnir â'r ysgolion yn y cyfrifon.

## Rhwymedigaeth pensiwn

**26.** Mae un o'r amcangyfrifon pwysicaf yn y Datganiad Cyfrifon wedi'i gynnwys o fewn y prisiad o rwymedigaethau pensiwn net ar gyfer cyflogeion yng nghronfa bensiwn LGPS Gwynedd. Eich diffyg pensiwn net ar 31 Mawrth 2015 oedd £125.5 miliwn (2014 - £91.1 miliwn), fel y'i prisiwyd gan actiwariaid yr Awdurdod, Hymans Robertson.

**27.** Gwnaethom adolygu rhesymoldeb y rhagdybiaethau a oedd yn sail i'r rhwymedigaeth pensiwn, ac rydym yn fodlon bod y rhagdybiaethau o fewn ystod dderbyniol. Mae'r rhwymedigaeth pensiwn yn sensitif iawn i newidiadau yn y gyfradd ddisgownt (h.y. y gyfradd y caiff rhwymedigaethau yn y dyfodol eu disgowntio yn ôl i werth presennol). Mae'r rhagdybiaeth a ddefnyddiwyd, sef 3.2%, o fewn ein hystod ddisgwyliedig ac wedi gostwng o 4.3% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad hwn yn golygu na

chaiff rhwymedigaethau yn y dyfodol eu disgowntio cymaint â'r flwyddyn flaenorol, gan arwain at gynnydd yng ngwerth y rhwymedigaeth ar 31 Mawrth 2015.

**28.** Gwnaethom ddefnyddio gwaith arbenigwyr actiwaraidd i asesu'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor a chynhaliwyd profion ar y wybodaeth a ddarparwyd gan y Cyngor i'r actiwari (megis lefel cyfraniadau cyflogeion a'r cyflogwr yn ystod y cyfnod).

**29.** Cawsom sicrwydd gan archwilydd y cynllun pensiwn (Archwilydd Cyffredinol Cymru) nad oes unrhyw faterion yn gysylltiedig â'r archwiliad o'r cynllun pensiwn a fyddai'n peri pryder o ran cywirdeb y cyfrifiadau na bodolaeth asedau'r cynllun na'r dull dosrannu tybiannol rhwng gwahanol gyflogwyr sy'n rhan o'r gronfa bensiwn.

**30.** Yn ystod trafodaethau â'r rheolwyr am y pensiwn, nodwyd gennym fod y ffurflen flynyddol a gyflwynwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys gwybodaeth anghywir. Mae'r ffurflen hon yn nodi manylion y cyfraniadau a wnaed gan gyflogeion IoACC a chan y Cyngor fel cyflogwr yn ystod y flwyddyn. Ni chyflwynir yr adroddiad i'r actiwari ac felly ni chaiff effaith ar y rhwymedigaeth pensiwn a nodir yn y Datganiad Cyfrifon ac rydym ar ddeall fod gwybodaeth ddiwygiedig bellach wedi'i chyflwyno i'r gronfa bensiwn. Nodwyr yr un mater yn ystod blynyddoedd blaenorol ac argymhellwn y dylid cynnal adolygiad o'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i Gronfa Bensiwn Gwynedd er mwyn sicrhau y darperir gwybodaeth gyflawn a chywir mewn modd amserol.

## Rhwymedigaethau cyflog cyfartal

**31.** Yn 1997, llofnododd cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur 'Gytundeb Statws Sengl'. Fel rhan o ddeddfwriaeth cyflog cyfartal, rhoddodd y cytundeb rwymedigaeth ar awdurdodau i gynnal adolygiadau cyflog cyfartal ac i gyflwyno strwythurau cyflog anwahaniaethol, gan fynd i'r afael â'r ffaith bod cyflogeion llywodraeth leol yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau gwahanol.

**32.** Mae'r Cyngor wedi cael hawliadau cyflog cyfartal yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi gwneud cyfanswm taliadau gwerth £3.3m i hawlwyr yn ystod 2013-14. Ar ôl gwneud y taliadau iawndal yn 2013-14, cafodd y Cyngor tua 200 o hawliadau Cyflog Cyfartal pellach. Daliwyd darpariaeth ar gyfer yr hawliadau hyn ar 31 Mawrth 2014.

**33.** Mae'r Awdurdod wedi parhau i dderbyn hawliadau pellach yn ystod 2014-15. Mae'r rheolwyr wedi asesu amlygiad posibl y Cyngor i hawliadau er mwyn amcangyfrif y rhwymedigaeth mewn perthynas â'r hawliadau cyfreithiol hyn. Gwnaethom gynnal profion trylwyr ar y cyfrifiadau a wnaed gan y rheolwyr a nodwyd bod angen cynyddu'r ddarpariaeth. Cynhwysir addasiad o £0.35m yn Atodiad 3 mewn perthynas â'r mater hwn.

## Gwerthuso Swyddi

**34.** Mae'r Awdurdod yn cynnal ei ymarfer Gwerthuso Swyddi ar hyn o bryd ac yn ddiweddar, gwnaeth gynnig i ôl-ddyddio cyflog cyflogeion y mae eu cyflog yn codi.

**35.** Ar adeg paratoi'r cyfrifon drafft, nid oedd y Cyngor wedi cynnig system cyflogau a graddau newydd eto ac nid oedd wedi meintioli unrhyw rwymedigaethau posibl o ran ôl-ddyddio cyflogau. O ganlyniad, ni wnaed unrhyw ddarpariaeth o ran yr ymarfer gwerthuso swyddi er y datgelir rhwymedigaeth wrth gefn.

**36.** Roedd cronfa wrth gefn wedi'i neilltuo o £5.4m ar gyfer costau'r ymarfer gwerthuso swyddi ar 31 Mawrth 2015 yn unol â'r cyfrifon drafft (2014:  £2.4m). Ers paratoi'r cyfrifon drafft, gall yr Awdurdod bellach wneud amcangyfrif rhesymol o gost elfen ôl-

ddyddio cyflogau'r ymarfer gwerthuso swyddi, gan fod staff wedi cael gwybod am y newidiadau arfaethedig i'w cyflog a bod penderfyniadau wedi'u gwneud o ran y dyddiadau ar gyfer ôl-ddyddio cyflogau. Fel y cyfryw, cynigiwyd addasiad i ailddosbarthu elfen o'r gronfa wrth gefn i ddarpariaeth, yn unol ag IAS 37 (gweler Atodiad 3).

**37.** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn trafodaethau â chyflogeion a'r undebau llafur am y strwythur cyflogau a graddau newydd. Byddwn yn parhau i fonitro unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 23 Medi 2015.

### Darpariaeth gwastraff

**38.** Mae'r Cyngor wedi cadw darpariaeth o £2.6m yn y datganiad cyfrifon (2014: £2.7m) mewn perthynas â chostau ôl-ofal ar ran o safle gwastraff Penhesgyn a gapiwyd. Mae prisiad y ddarpariaeth hon yn deillio o asesiad amgylcheddol arbenigol a gynhaliwyd yn 2008 ac a ddiweddarwyd yn 2014-15, yn ogystal ag asesiad y Cyngor yn seiliedig ar gostau ôl-ofal parhaus. Mae'r asesiad yn rhagamcanu costau ôl-ofal dros gyfnod o 30 mlynedd ar gyfer y safle cyfan. Mae'r costau hyn, sef costau refeniw, yn rhai gofynnol o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol ac felly darperir ar eu cyfer yn gywir, gan fod rhwymedigaeth ar yr Awdurdod i adfer y tir a ddefnyddiwyd yn flaenorol at ddibenion tirlenwi.

**39.** Rydym wedi cynnal rhywfaint o waith dadansoddi sensitifrwydd, disgowntio yn seiliedig ar y costau a nodwyd yn yr asesiad amgylcheddol arbenigol a'r rheini a brofwyd gan y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, gan gymhwyso nifer o ragdybiaethau o ran cyfradd ddisgowntio a chwyddiant er mwyn rhoi amrywiaeth o werthoedd posibl o ran darpariaeth. Rydym yn fodlon bod darpariaeth y Cyngor yn dod o fewn amrediad rhesymol o amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel wedi'i ddisgowntio.

**40.** Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod yn ei gyfrifon gronfa wrth gefn wedi'i neilltuo o £2m ar gyfer safle Penhesgyn, mewn perthynas â chwlfert sy'n llifo drwy'r safle. Mae'r cwlfert wedi'i ddinistrio'n rhannol ac, er ei fod yn gweithredu ar hyn o bryd, mae rheolwyr o'r farn ei fod yn debygol o fethu yn y dyfodol. Neilltuwyd swm o £2m er mwyn ariannu costau gosod cwlfert newydd os bydd yr un gwreiddiol yn methu.

## Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

**41.** Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

- **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.** Cafwyd gennym fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.
- **Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.** Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.
- **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**

- **Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Ni wnaethom nodi unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol ond rydym wedi nodi sawl maes lle gellid gwella rheolaethau.** Nodir y rhain yn Atodiad 4.
- **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

## Partïon cysylltiedig

**42.** Wrth lunio barn ar y datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i ni werthuso'r canlynol:

- p'un a gyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig a ph'un a'u datgelwyd yn briodol; a
- ph'un a yw effeithiau cydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig yn peri i'r datganiadau ariannol fod yn gamarweiniol.

Ni wnaethom nodi unrhyw faterion o'r fath yn ystod ein gwaith.

## Y diweddaraf am ffioedd 2014-15

**43.** Cyflwynwyd adroddiad ar ein cynigion am ffioedd fel rhan o'n cynllun archwilio. Mae ein ffioedd gwirioneddol yn unol â'n cynigion.

## Risg o Dwyll

**44.** Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) yn datgan ein bod ni, fel archwilwyr, yn gyfrifol am gael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed wedi'u hachosi drwy dwyll neu wall. Ceir crynodeb o briod gyfrifoldebau archwilwyr, rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu isod:

### Cyfrifoldeb yr archwilwyr

Ein hamcanion yw:

- nodi ac asesu'r risg y ceir camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol o ganlyniad i dwyll;
- dod o hyd i dystiolaeth archwilio briodol ddigonol ynglŷn â'r risgiau a aseswyd o ran camddatganiadau perthnasol o ganlyniad i dwyll, drwy gynllunio ymatebion priodol a'u rhoi ar waith; ac
- ymateb yn briodol i achosion o dwyll neu dwyll a amheuir a nodir yn ystod yr archwiliad.

### Cyfrifoldeb y rheolwyr

Cyfrifoldebau rheolwyr mewn perthynas â thwyll yw:

- cynllunio a gweithredu rhaglenni a rheolaethau i atal, rhwystro a chanfod twyll;

- sicrhau bod diwylliant ac amgylchedd yr endid yn hyrwyddo ymddygiad moesegol; a
- chyflawni asesiad risg sy'n cynnwys yn benodol risg o dwyll gan ymdrin â chymhellion a phwysau, cyfleoedd, ac agweddau a threfniadau rhesymoli.

**Cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio**

Eich cyfrifoldeb chi fel rhan o'ch rôl llywodraethu yw:

- gwerthuso proses y rheolwyr o nodi'r risg o dwyll, rhoi mesurau gwrth-dwyll ar waith a chreu'r awyrgylch priodol ar y brig"; ac
- ymchwilio i unrhyw achosion honedig neu achosion a amheuir o dwyll y tynnir eich sylw atynt.

**45.** Yn ein cynllun archwilio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio, holwyd y canlynol:

- P'un a oes gennych unrhyw wybodaeth am achosion o dwyll, boed yn achosion gwirioneddol, honedig neu a amheuir, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rheolwyr?;
- Pa fesurau canfod neu atal twyll sydd ar waith yn y Cyngor?;
- Beth yw eich rôl mewn perthynas â thwyll?; a
- Pha brotocolau / gweithdrefnau a roddwyd ar waith rhwng y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am achosion o dwyll, boed yn achosion gwirioneddol, honedig neu a amheuir?

Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn i chi, rydym yn gofyn i chi gadarnhau na fu unrhyw newidiadau i'ch barn am y risg o dwyll ac na ddaeth unrhyw faterion ychwanegol i'r amlwg y dylid tynnu ein sylw atynt. Cynhwysir cadarnhad penodol gan y rheolwyr mewn perthynas â thwyll yn y llythyr sylwadau.

# Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2014-15

**46.** Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn Atodiad 4.

# Annibyniaeth a gwrthrychedd

**47.** Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

**48.** Mae PwC yn darparu gwasanaethau ardystio grantiau i'r Cyngor, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, a chodir taliadau blynyddol o tua £135k am hynny.

**49.** Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru neu PwC a Chyngor Sir Ynys Môn sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd na'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

**50.** Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n gyson â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan CIPFA / SOLACE: “Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol”.

**51.** Gwnaethom adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac rydym o'r farn ei fod yn cydymffurfio â fframwaith CIPFA / SOLACE “Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol". Nid ydym o'r farn ei fod yn gamarweiniol nac yn anghyson â gwybodaeth arall a oedd yn hysbys i ni o ganlyniad i'n gwaith archwilio.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Drafft

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd.
CF11 9LJ

29 Medi 2015

## Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2014-15

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, gael tystiolaeth archwilio ganddynt.

- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ynys Môn ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol. Cadarnhaf fod yr atodiad i'r llythyr hwn yn cynnwys rhestr gyflawn o bartïon cysylltiedig yr Awdurdod.

Datgelwyd pob achos o drosglwyddo adnoddau, gwasanaethau neu rwymedigaethau rhwng yr Awdurdod a'r partïon hyn i chi, ni waeth pa un a chodwyd tâl am hynny ai peidio.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bartïon cysylltiedig eraill, na thrafodion rhwng partïon cysylltiedig a ddatgelwyd.

Cadarnhaf ein bod wedi rhoi gwybod i chi am unrhyw gynlluniau buddiannau cyflogeion y mae cyflogeion yr Awdurdod yn rhan ohonynt.

Mae'r holl drefniadau cytundebol (gan gynnwys llythyrau sy'n cyd-fynd â chytundebau) y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo iddynt wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y cofnodion cyfrifyddu neu, lle y maent yn berthnasol (neu y gallent fod yn berthnasol) i'r datganiad cyfrifon, wedi'u datgelu i chi.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

## Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Sir Ynys Môn ar 29 Medi 2015.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Richard Micklewright<br>Swyddog a.151 Dros Dro | *Swyddog neu Aelod sy'n llofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu* |
| Dyddiad: 29 Medi 2015 | Dyddiad: 29 Medi 2015 |

## Atodiad: Rhestr o bartïon cysylltiedig *(to be inserted)*

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

### Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Sir Ynys Môn a pha un a ydynt wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn y Rhagair Esboniadol yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys camddatganiadau ffeithiol perthnasol neu mae'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Dros ac ar ran**

**Huw Vaughan Thomas**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**24 Heol y Gadeirlan**

**Caerdydd CF11 9LJ**

**30 Medi 2015**

# Atodiad 3

## Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| | Natur y cywiriad | CIES Debyd (Dr) | CIES Credyd (Cr) | BS Debyd | BS Credyd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| 1 | DR Cyfrifon taladwy<br>CR Derbyniadau Grantiau Cyfalaf Ymlaen Llaw<br>*Ailddosbarthu Derbyniadau Grantiau Cyfalaf Ymlaen Llaw gan gredydwyr* | | | 380 | 380 |
| 2 | DR Cyfrifon taladwy<br>CR Benthyca byrdymor<br>*Ailddosbarthu'r llog a gronnwyd gan gredydwyr byrdymor i drefniadau benthyca byrdymor* | | | 1,681 | 1,681 |
| 3 | DR Cyfrifon derbyniadwy<br>CR Cyfrifon taladwy<br>*Ailddosbarthu derbyniadau ymlaen llaw gan ddyledwyr i gredydwyr* | | | 677 | 677 |
| 4 | DR Colled ailbrisio<br>CR Asedau a ddelir i'w gwerthu<br>*Y gostyngiad yn y gwerth sydd ei angen i ailbrisio dau ased a ddelir o fewn Asedau a Ddelir i'w Gwerthu i'w gwerth teg llai costau gwerthu.* | 2,078 | | | 2,078 |
| 5 | DR Eiddo buddsoddi<br>CR Eiddo, offer a chyfarpar<br>DR CIES (FIIE)<br>CR Eiddo buddsoddi<br>*Addasiad i ailddosbarthu Unedau Pen-yr-orsedd yn eiddo buddsoddi a'u hailbrisio i'w gwerth teg* | 1,124 | | 1,354 | 1,354<br>1,124 |
| 6 | DR Costau Gwasanaethau<br>CR Darpariaeth drwg-ddyledion<br>DR Cyfrifon derbyniadwy<br>CR Cyfrifon taladwy | 270 | | 180 | 270<br>180 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Addasiad i gynyddu'r ddarpariaeth drwg-ddyledion ar gyfer nifer o wallau wrth gyfrifo ac ailddosbarthu derbyniadau cyfrifon tai ymlaen llaw i gredydwyr* | | | | |
| *7* | DR Costau Gwasanaethau<br>CR Cyfrifon derbyniadwy<br>*Addasiad er mwyn lleihau swm yr incwm NNDR y cronnir ar ei gyfer gan Lywodraeth Cymru.* | 244 | | | 244 |
| *8* | DR Incwm HRA (cost gwasanaethau)<br>CR Cyfrifon derbyniadwy<br>*Addasiad er mwyn lleihau swm yr incwm rhentu a gydnabyddir, gan fod y golled eiddo gwag am y flwyddyn wedi'i hepgor drwy gamgymeriad.* | 178 | | | 178 |
| *9* | DR Costau Gwasanaethau<br>CR Cyfrifon taladwy<br>DR Cyfrifon taladwy<br>CR Costau Gwasanaethau<br>*Addasiad er mwyn gwyrdroi dyddlyfrau gwallus a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn i ddileu balansau credydwyr a ddygwyd ymlaen.* | 121 | 145 | 145 | 121 |
| *10* | DR Costau Gwasanaethau<br>CR Darpariaethau byrdymor<br>*Addasiad er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal, o ganlyniad i hawliadau newydd a gafwyd yn ystod y flwyddyn.*<br>*Gellir gwyrdroi effaith hyn ar y gronfa gyffredinol drwy'r MiRS, gyda'r debyd yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa ôl-ddyddio cyflogau anghyfartal wrth gefn tra'n aros am gais am gyfarwyddyd cyfalafu.* | 353 | | | 353 |
| *11* | DR Costau Gwasanaethau<br>CR Darpariaethau byrdymor<br>*Addasiad er mwyn trosglwyddo cost amcangyfrifedig ôl-ddyddio cyflogau hyd at 31 Mawrth 2015 o'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer yr ymarfer gwerthuso swyddi i ddarpariaethau byrdymor. Mae hyn yn seiliedig ar y cyfrifiadau diweddaraf a ddarparwyd gan gynghorydd gwerthuso swyddi'r Awdurdod.* | 2,900 | | | 2,900 |
| *12* | DR Cronfa ailbrisio wrth gefn<br>CR PPE (anheddau'r cyngor)<br>*Addasiad er mwyn lleihau'r cynnydd yn y prisiad a gofnodwyd o ganlyniad i wall yn nifer yr eiddo* | | | 284 | 284 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad, wedi'i wrthbwyso gan wahaniaethau cyfrifo adferol a nodwyd.* | | | | |
| *13* | DR Cronfa ailbrisio wrth gefn<br>DR CIES<br>CR PPE (L&B)<br>*Yr addasiad net sydd ei angen mewn perthynas â nifer o wallau a nodwyd o'r ymarfer ailbrisio, gan gynnwys ased a hepgorwyd o'r gofrestr asedau sefydlog, gwahaniaethau o ran arwynebedd llawr a'r ffaith nad adlewyrchwyd ailbrisiadau ar y gofrestr asedau sefydlog.* | 452 | | 120 | 572 |
| *14* | DR Asedau a ddelir i'w gwerthu<br>CR PPE (L&B)<br>*Addasiad er mwyn ailddosbarthu'r tir ar safle Ysgol Y Graig gynt yn asedau a ddelir i'w gwerthu.* | | | 694 | 694 |
| | DR Cyfrifon derbyniadwy<br>CR CIES<br>*Addasiad er mwyn cywiro balans ddiwedd y flwyddyn gordaliadau budd tai , a oedd wedi cael ei bostio i'r cyfriflyfr yn anghywir* | | 378 | 378 | |
| | **Cyfanswm** | **7,720** | **523** | **5,893** | **13,090** |

*CIES - Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr*

*BS - Y Fantolen*

**Ad-daliadau mewnol**

Gwnaeth y CIES yn y Datganiad Cyfrifon drafft gynnwys ad-daliadau mewnol dylai wedi cael eu dileu. Cafodd hyn ei nodi cyn y dyddiad cau ar gyfer paratoi Datganiad Cyfrifon drafft o 30ed o Fehefin a cafodd CIES diwygiedig gyda'r ad-daliadau mewnol wedi eu tynnu allan ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu mewn cyfarfod ar yr 23ed o Fehefin 2015.

# Atodiad 4

## Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2014-15

Nodwn isod yr argymhellion pwysicaf sy'n deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Caiff mwy o fân bwyntiau rheoli eu cyfleu i'r rheolwyr ar wahân.

| **Mater yn deillio 1 - Ailbrisio** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd sawl gwall o'r profion a gyflawnwyd mewn perthynas ag ailbrisio asedau eiddo'r Cyngor (gan gynnwys Eiddo, Offer a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddi ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu). Fe'u disgrifir yn fanwl yn adran amcangyfrifon cyfrifyddu pwysig yr adroddiad hwn. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Dylid gwella'r trefniadau cyfathrebu rhwng yr adran gyllid a'r prisiwr a dylai staff yr adran gyllid roi rhaglen profion dilysu ar waith mewn perthynas â'r adroddiad prisio a'r data a ddarperir, er mwyn sicrhau bod y ffigurau a gofnodir yn briodol. Dylid cynnal ymarfer cysoni er mwyn cymharu'r asedau a gofnodir ar y gofrestr asedau sefydlog â'r cofnodion a ddelir yn annibynnol gan ystadau a/neu'r adran gyfreithiol. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Bydd gweithredu'r argymhelliad yn gwella cywirdeb y prisiad o asedau PPE y Cyngor, fel y'u cynhwysir yn y cyfrifon. |
| ***Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr*** | *Do* |
| ***Ymateb y rheolwyr*** | *Mae'r grwp rheoli yn ystyried opsiynau darpariaeth gwasanaethau ar gyfer prisio am y flwyddyn nesaf a fydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses.* |
| ***Dyddiad gweithredu*** | *Fydd y broses cysoni wedi ei weithredu erbyn ddiwedd mis Rhagfyr 2015. Fydd gwelliannau i'r broses ailbrisio yn cael eu gweithredu erbyn ddiwedd mis Mawrth 2016.* |

| **Mater sy'n deillio 2 - Pensiynau** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Yn ystod trafodaethau â'r rheolwyr am y pensiwn, nodwyd gennym fod y ffurflen flynyddol a gyflwynwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys gwybodaeth anghywir. Ni chyflwynir yr adroddiad i'r actiwari ac felly ni chaiff effaith ar y rhwymedigaeth pensiwn a nodir yn y Datganiad Cyfrifon ac rydym ar ddeall fod gwybodaeth ddiwygiedig bellach wedi'i chyflwyno i'r gronfa bensiwn. Nodwyd yr un mater yn ystod blynyddoedd blaenorol |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |

| Mater sy'n deillio 2 - Pensiynau | |
|---|---|
| **Argymhelliad** | Argymhellwn y dylid cynnal adolygiad o'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i Gronfa Bensiwn Gwynedd er mwyn sicrhau y darperir gwybodaeth gyflawn a chywir yn amserol. Rydym ar ddeall bod nifer o gyflogwyr sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Gwynedd wedi rhoi system trosglwyddo data electronig ar waith sy'n darparu gwybodaeth awtomatig i'r gronfa bensiwn yn ddyddiol. Argymhellir y dylai'r Awdurdod gynnal dadansoddiad cost a budd rhoi system o'r fath ar waith. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Byddai gweithredu'r argymhelliad yn arwain at ostyngiad yn nifer y gwallau a gallai arwain at arbedion o ran amser rheolwyr a mewnbwn staff. |
| ***Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr*** | *Do* |
| ***Ymateb y rheolwyr*** | *Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr* |
| ***Dyddiad gweithredu*** | *Rhagfyr 2015* |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk